## ADRAN 1. PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EU CYMRYD A PHAM?

# Trosolwg

Mae weips gwlyb plastig yn cael eu cynhyrchu at amryfal ddibenion, er mwyn glanhau cartrefi ac at ddibenion gofal personol fel arfer. Maent yn cael eu hystyried yn ffordd gyflym, hawdd a chyfleus o gadw'n lân. Yn 2021, yn ôl amcangyfrifon y Gymdeithas Cadwraeth Forol, roedd rhyw 11 biliwn o weips yn cael eu defnyddio yn y DU bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwnnw'n cyfateb i bron 200 o weips gwlyb y pen – sy'n sylweddol uwch nag mewn gwledydd eraill.

Yn 2023, cafodd 21,000 o weips eu casglu o 92 milltir o draethau'r DU gan wirfoddolwyr y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn ystod 'Beachwatch', a chanfu arolwg a gynhaliwyd gan Thames Water yn 2022 fod 22% o bobl wedi cyfaddef eu bod yn fflysio weips gwlyb i'r system garthffosiaeth. Yn ôl y dadansoddiad o gyfansoddiad gwastraff sbwriel yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2019, canfuwyd, ar ôl cyfrif eitemau, mai weips gwlyb sydd i gyfrif am 2.5% o'r sbwriel ar dir. Mae hynny'n dangos yn glir bod niferoedd mawr iawn o weips gwlyb yn dal i gyrraedd yr amgylchedd oherwydd bod pobl yn eu gwaredu mewn ffyrdd amhriodol, er gwaethaf ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth fel yr ymgyrch Stop Cyn Creu Bloc gan Dŵr Cymru. Mewn astudiaeth a gyhoeddwyd yng nghyfnodolyn Science of the Total Environment yn 2021, nodwyd mai weips gwlyb sy'n cynnwys plastig sydd i gyfrif am gyfran sylweddol o'r llygredd plastig yn ein hafonydd a'n cefnforoedd.

Mae'rh rheoliadau arfaethedig, sef Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Weips Gwlyb) (Cymru) 2025 yn diffinio weips gwlyb fel 'darn o ffabrig anweëdig sydd wedi'i wlychu ymlaen llaw'. Bydd y ddeddfwriaeth yn gwahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon uchod am yr amgylchedd. Bydd esemptiad er mwyn caniatáu i weips gwlyb sydd wedi eu 'dylunio neu eu gweithgynhyrchu i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol' barhau i gael eu cyflenwi. Bydd busnesau'n dal i gael cyflenwi weips gwlyb i'w gilydd hefyd.

Amcanion y Polisi

Nod ein polisi yw:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir gan lygredd plastig a microblastig, yn enwedig yn ein hafonydd a'n moroedd, oherwydd bod weips gwlyb sy'n cynnwys plastigau yn cael eu gwaredu mewn ffordd amhriodol.

- Annog pobl i fynd ati i ddewis eitemau y gellir eu hailddefnyddio neu eitemau diblastig yn lle weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

- Cefnogi'n hamcan strategol ehangach i fynd i'r afael â'r diwylliant gwastraffus drwy annog pobl i newid eu hymddygiad mewn perthynas â defnyddio cynhyrchion untro.

Cyflwynwyd Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (y Ddeddf) er mwyn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi, gan gynnwys cyflenwi'n rhad ac am ddim, amrywiaeth o gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml. Rydym yn bwriadu defnyddio pwerau yn y Ddeddf i ychwanegu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i'r atodlen o gynhyrchion gwaharddedig.

**Y tymor hir**

Mae mwy a mwy o blastig yn ein priddoedd, ein moroedd a'n hafonydd, er mawr anfantais i ecosystemau, bioamrywiaeth ac, o bosibl, iechyd pobl, ac mae hynny'n achosi pryder eang. Gall weips gwlyb sy'n cynnwys plastig gymryd cryn amser i ddiraddio yn yr amgylchedd, a gallant gyfrannu at lygredd microblastig. Drwy gyflwyno gwaharddiad ar gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, rydym yn ychwanegu at gamau a gymerwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu'n bywyd gwyllt a'n hecosystemau er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael eu mwynhau.

Ar ôl cynnal ymgynghoriad ar draws y pedair gwlad, gwnaed penderfyniad ledled y DU i beidio â bwrw ymlaen â gwaharddiad ar weithgynhyrchu. Y rheswm dros y penderfyniad hwnnw oedd lliniaru unrhyw effeithiau economaidd hirdymor posibl ar y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru a lleihau'r tebygolrwydd o golli swyddi. Wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, cyhoeddodd un gwneuthurwr y byddai ffatri yn cau yng Ngogledd Cymru ac y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth. Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector gweithgynhyrchu i'w annog i bontio'n llawn i fathau eraill o gynhyrchion.

Arweiniodd ein Hasesiadau Effaith hefyd at ddarparu esemptiadau er mwyn caniatáu i fusnesau (fel ysbytai, safleoedd cynhyrchu bwyd) a'r sector gofal iechyd fedru parhau i gael gafael ar weips sy'n cynnwys plastig. Mae hynny'n golygu eu bod yn dal i fedru cael gafael ar y cynhyrchion hynny os nad oes unrhyw ddewisiadau eraill neu os nad ydynt yn addas i'w defnyddio ar hyn o bryd.

**Atal**

Mae gweithgynhyrchwyr a busnesau yn y DU eisoes wedi dechrau rhoi'r gorau i werthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i'r cyhoedd. Yn lle hynny, mae mwydion pren a chotwm yn cael eu defnyddio'n aml yn lle ffibrau synthetig. Er bod pryderon ynglŷn â pha mor fioddiraddadwy yw deunyddiau o'r fath unwaith y byddant wedi

cyrraedd yr amgylchedd, rydym o'r farn bod gweithredu i fynd i'r afael yn benodol â weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn gam pwysig tuag at leihau faint o blastig sy'n cyrraedd yr amgylchedd.

Er ein bod yn croesawu'r mesurau gwirfoddol a gymerwyd gan y diwydiant, rydym o'r farn bod angen ymyrryd drwy ddeddfwriaeth er mwyn cael gwared â'r weips gwlyb cost isel, llawn plastig sy'n parhau i fod ar gael ar y farchnad. Drwy gyfyngu ar y weips gwlyb llawn plastig sydd ar y farchnad, byddwn yn eu hatal rhag cael effaith ar yr amgylchedd yn y lle cyntaf.

## Integreiddio

Drwy ddatblygu'n polisi i fynd i'r afael â'r llygredd a achosir gan y weips hyn, byddwn yn parhau i wireddu'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ddiddymu'r defnydd o'r cynhyrchion untro hynny sy'n cael eu taflu amlaf yng Nghymru. Mae hefyd yn gam pwysig at wireddu ymrwymiadau yn ein Strategaeth Economi Gylchol, *Mwy nag Ailgylchu*.

Mae'n cynnig i wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn seiliedig ar y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd gwahardd y weips hyn yn lleihau'r niwed y mae plastig yn ei wneud i'r amgylchedd, gan wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol. Gall lleihau llygredd plastig fod o fudd i bawb sy'n byw yng Nghymru ac yn ymweld â hi. Mae mynd i'r afael â llygredd plastig yn diogelu ac yn gwella ardaloedd lleol, gan wella iechyd a lles, yn enwedig pan fo'r gwelliannau hynny'n cael eu gwneud mewn cymunedau ar hyd afonydd a'n harfordiroedd lle mae llawer o weips yn cael eu taflu (h.y. nodau llesiant **Cymru gydnerth, Cymru fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynol**).

Mae microplastigau'n cael eu colli o weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, a gall y microplastigau hynny fynd i mewn i gadwyni bwyd anifeiliaid a phobl. Felly, mae lleihau plastig yn cyfrannu at **Gymru iachach**. Mae Cymru yn arwain y byd ar ailgylchu eisoes ac mae'n rheoliadau arfaethedig yn gam ychwanegol at fynd i'r afael â heriau byd-eang yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur (**Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang**). Mae diogelu ecosystemau naturiol a bioamrywiaeth yn gwella cyfalaf diwylliannol Cymru ac yn cefnogi gweithgareddau awyr agored. Wrth inni ddatblygu'n cynigion, byddwn yn sicrhau safonau cyfartal yn y safonau Cymraeg a Saesneg (**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**).

Wrth i Gymru droi ei chefn ar gynhyrchion plastig untro tafladwy, mae cyfleoedd yn codi i fusnesau Cymru arloesi a datblygu dewisiadau amgen cynaliadwy yn lle'r cynhyrchion plastig a ddefnyddiwn heddiw (**Cymru lewyrchus**).

## Cydweithio, Cynnwys Eraill ac Effaith

Yn 2020, aethom ati yn ein hymgynghoriad Lleihau plastig untro i gyflwyno gwaharddiadau ar rai cynhyrchion plastig untro ac i ofyn a oedd yr ymatebwyr o blaid gweithredu ar weips gwlyb. O blith y rheini a ymatebodd, roedd 63% o blaid naill ai waharddiad llwyr neu fesurau eraill fel trethi neu daliadau.

Rhwng 14 Hydref a 25 Tachwedd 2023, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Gogledd Iwerddon, ymgynghoriad ar draws y pedair gwlad rhwng misoedd Hydref a Thachwedd 2023. O blith y rheini a ymatebodd, roedd 95% o blaid gwaharddiad.

Wrth inni roi'n deddfwriaeth ar waith, byddwn yn parhau i ymwneud a thrafod â'r awdurdodau lleol, pobl anabl a'u cynrychiolwyr, plant a phobl ifanc, sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol, y sector iechyd, y sectorau gweithgynhyrchu, cynhyrchu a manwerthu er mwyn inni fedru cadw golwg ar unrhyw effeithiau.

Mae tystiolaeth ac achos cryf dros leihau'r effaith y mae weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn ei chael ar yr amgylchedd. Er bod rhywfaint o gamau gwirfoddol wedi cael eu cymryd eisoes, rydym o'r farn y bydd camau deddfwriaethol yn atal difrod i'r amgylchedd yn y dyfodol. Gan fod dewisiadau amgen amldro a diblastig ar gael, rydym o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn cyflawni'n nodau polisi heb effeithiau negyddol ar y rheini sy'n dibynnu ar y cynhyrchion hyn.

## Costau, Arbedion a Mecanwaith

Bydd goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth hon yn cael eu hamlinellu yn ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol.